" Dyma galon Meirionnydd - Man y gân ym min y gwŷdd
Yn y llan lle nad oes llid, lawnt agos i Lyn Tegid"

Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn

DYDD SADWRN
25 MAI 2019

i'w chynnal yn y

Neuadd Bentref

Rhestr Testunau

Dydd Gwener 24 Mai: Pabell Lên Cynradd yn Ysgol O M Edwards (am 9.30 o'r gloch)

Pris Mynediad i'r Eisteddfod:
Cyfarfod y Bore a Prynhawn: £3.00 (i ddechrau am 10.30 a 1.30 o'r gloch)
Cyfarfod yr Hwyr: £3.00 (i ddechrau am 6.00 o'r gloch)
Plant Uwchradd: £1.00
Plant Cynradd: 50c

Bydd lluniaeth ysgafn gan Gyfeillion Ysgol O M Edwards ar gael am bris rhesymol

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru

BEIRNIAID, LLYWYDDION A SWYDDOGION

Cerdd:
Robyn Lyn Evans, Aberhosan

Cerdd Dant:
Iwan Morgan, Llan Ffestiniog

Adrodd:
Steffan Parry, Pwllglas

Arlunio a Chrefft:
Nia Davies, Frongoch

Barddoniaeth (Cynradd ac Uwchradd):
Alwyn Evans Jones, Ceniarth, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd. LL23 7TW

Barddoniaeth (Agored):
Iwan Morgan, Ty'n Ffridd, Cwm Cynfal, Llan Ffestiniog, Gwynedd. LL41 4PU

Rhyddiaith a'r Prif Draethawd:
Dwyryd Williams, Bryn Golau, Dolgellau, Gwynedd. LL40 2YP

Llywyddion:
Prynhawn: Ceri Ellis, Hen Golwyn
Hwyr: Dennis Brace Jones, Corris

Cyfeilyddion (gweler Amod 11 ac 12 ar y dudalen gefn):
Siwan Davies, Llanuwchllyn (Bore a Prynhawn - Cerdd) ☎(01678) 540388
Elain Wyn Jones, Pwllheli (Prynhawn a Hwyr - Cerdd Dant) ☎ 07884 103159
Eirian Owen, Dolgellau (Hwyr) ☎(01341) 423076

Arweinyddion:
Dilys Ellis-Jones, Eirian Roberts, Sion Tudor Jones, Euros Roberts a Carwyn Siddall

Swyddogion y Pwyllgor:
Llywydd: Ann E. Jones, Rhoshelyg, Llanuwchllyn
Trysorydd: Dylan Evans, Pantyceubren, Llanuwchllyn

Ysgrifennydd:
Alwyn M. Roberts, Weirglodd Wen, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd. LL23 7ST
☎(07818) 454190 neu (01678) 540745
e-bost: llungwyn@btinternet.com

Dymuna'r Pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar y cymorth a dderbyniwyd gan Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Cymuned Llanuwchllyn i gynnal gweithdai barddoniaeth gydag Anni Llŷn

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

RHESTR TESTUNAU

CYFARFOD Y BORE (10.30 yb)

CERDD

Gweler yr amodau ar y dudalen gefn os gwelwch yn dda

1. **UNAWD BL. 1 a 2**: 'Yr Enfys' - unrhyw ddau bennill, Mary S Jones, *Ffrindiau [Curiad]. Gwobr:* £6.00 i'w rhannu

2. **UNAWD BLWYDDYN DERBYN**: 'Bwgan Brain' Falyri Jenkins, *Codi bawd a dweud helô [Y Lolfa]. Gwobr:* £5.00 i'w rhannu

3. **UNAWD MEITHRIN**: O ddewisiad. *Gwobr:* £4.00 i'w rhannu

ADRODD

Gweler yr amodau ar y dudalen gefn os gwelwch yn dda

4. **ADRODD BL. 1 a 2**: 'Pysgota Sêr' (Fel yr Urdd). *Gwobr:* £6.00 i'w rhannu

5. **ADRODD BLWYDDYN DERBYN**: 'Colled', Selwyn Griffiths, *A Dyma'r ola [Gwasg Gwynedd]. Gwobr:* £5.00 i'w rhannu

6. **ADRODD MEITHRIN**: O ddewisiad. *Gwobr:* £4.00 i'w rhannu

CERDD

Gweler yr amodau ar y dudalen gefn os gwelwch yn dda

CYFARFOD Y PRYNHAWN (1.30 yh)

7. **CÔR NEU BARTI DAN 12 OED**: O ddewisiad. *Gwobr:* £15.00 i'w rhannu

8. **DEUAWD DAN 12 OED**: 'Beth?' (Fel yr Urdd). *Gwobrau:* 1, £10.00; 2, £6.00; 3, £4.00

9. **UNAWD BL. 5 a 6**: 'Fy ngardd fach i' (Fel yr Urdd). *Gwobrau:* 1, £6.00; 2, £4.00; 3, £2.00

10. **UNAWD BL. 3 a 4**: 'Cofio' (Fel yr Urdd). *Gwobrau:* 1, £4.00; 2, £2.50; 3, £1.50

11. **UNAWD AR UNRHYW OFFERYN CERDD BL. 4, 5 a 6**: O ddewisiad (hyd at 4 munud) *Gwobrau:* 1, £6.00; 2, £4.00; 3, £2.00

CERDD DANT

Gweler yr amodau ar y dudalen gefn os gwelwch yn dda

12. **CÔR NEU BARTI CERDD DANT DAN 12 OED**: Fel yr Urdd. *Gwobr:* £15.00 i'w rhannu

13. **UNAWD BL. 5 a 6**: 'Dychymyg' (Fel yr Urdd). *Gwobrau:* 1, £6.00; 2, £4.00; 3, £2.00

14. **UNAWD BL. 3 a 4**: 'Cadw-Mi-Gei' (Fel yr Urdd). *Gwobrau:* 1, £4.00; 2, £2.50; 3, £1.50

15. **UNAWD BL. 1 a 2**: 'Chwilio Heb ei Chael Hi' (Fel yr Urdd). *Gwobrau:* £6.00 i'w rhannu

ADRODD

Gweler yr amodau ar y dudalen gefn os gwelwch yn dda

16. **CYD-ADRODD DAN 12 OED**: Fel yr Urdd. *Gwobr:* £15.00 i'w rhannu

17. **ADRODD BL. 5 a 6**: 'Dewis Timau' (Fel yr Urdd). *Gwobrau:* 1, £6.00; 2, £4.00; 3, £2.00

18. **ADRODD BL. 3 a 4**: 'Y Gornel Dywyll' (Fel yr Urdd). *Gwobrau:* 1, £4.00; 2, £2.50; 3, £1.50

Cefnogir y gwobrau cynradd er cof am Heulwen Mai Jones-Williams (Gwernhefin gynt).

Rhoddir cwpan er cof am Mrs Enid Pierce Jones (rhodd Merched Uwchllyn) i'w dal am flwyddyn i'r cystadleuydd gorau yn yr adran Cerdd neu Cerdd Dant dan 16 oed

Rhoddir cwpan er cof am Eilir Wyn Parry, Y Wern (rhodd ei rieni Carys ac Aeron) i'w dal am flwyddyn i'r cystadleuydd gorau yn yr adran Adrodd dan 16 oed

CYFARFOD YR HWYR (6.00 yh)

CERDD

Gweler yr amodau ar y dudalen gefn os gwelwch yn dda

19. **PRIF GYSTADLEUAETH GORAWL, CYMYSG, MEIBION NEU FERCHED**: O ddewisiad *Gwobrau:* 1, £200.00; 2, £150.00; 3, £100.00

20. **CÔR NEU BARTI DAN 16 OED**: Fel yr Urdd. *Gwobr:* £20.00 i'w rhannu

21. **Y BRIF UNAWD**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £60.00; 2, £50.00; 3, £35.00

22. **UNAWD GYMRAEG**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £40.00; 2, £30.00; 3, £20.00

23. **CANU EMYN AGORED**: Unrhyw Emyn o Raglen Cymanfaoedd Canu 2018 - 2019 Gwobrau: 1, £20.00 *(a Chwpan Goffa D. Lloyd Jones i'w chadw am flwyddyn)*; 2, £15.00;

24. **CÂN O SIOE GERDD DAN 30 OED**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £30.00 *(a Chwpan Coffa David P. Jones, rhoddedig gan Gwennant Pyrs a'r teulu i'w chadw am flwyddyn)*; 2, £25.00; 3, £20.00

25. **UNAWD 19 - 25 OED**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £25.00; 2, £20.00; 3, £15.00

26. **UNAWD DAN 19 OED**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £20.00; 2, £15.00; 3, £10.00

27. **UNAWD BLWYDDYN 7, 8, 9 a 10**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £8.00; 2, £5.00; 3, £3.00

28. **UNAWD AR UNRHYW OFFERYN CERDD BL. 7, 8, 9 a 10**: O ddewisiad (hyd at 4 munud) *Gwobrau:* 1, £8.00; 2, £5.00; 3, £3.00

CERDD DANT

Gweler yr amodau ar y dudalen gefn os gwelwch yn dda

29. **CÔR NEU BARTI DAN 16 OED**: Fel yr Urdd
Gwobr: £20.00 i'w rhannu *(Gwobr Goffa Tom Jones, Godre'r Aran)*

30. **UNAWD AGORED**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £40.00; 2, £30.00; 3, £20.00

31. **UNAWD BLWYDDYN 7, 8, 9 a 10**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £8.00; 2, £5.00; 3, £3.00

ADRODD

Gweler yr amodau ar y dudalen gefn os gwelwch yn dda

32. **CYD-ADRODD AGORED**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £60.00; 2, £40.00; 3, £20.00

33. **CYD-ADRODD DAN 16 OED**: Fel yr Urdd. Gwobr: £20.00 i'w rhannu

34. **ADRODD AGORED**: O ddewisiad heb fod yn hwy na 6 munud.
Gwobrau: 1, £60.00; 2, £50.00; 3, £35.00

35. **LLEFARU NEU CYFLWYNO DARN DIGRI AGORED** heb fod yn hwy na 4 munud (Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Manylion pellach ar wefan y Gymdeithas www.steddfota.org). *Gwobrau:* 1, 30.00; 2, £20.00; 3, £10.00

36. **ADRODD DAN 25 OED**: Un o ddarnau'r Urdd 2019 dan 19 neu 25 oed neu 'leuenctid', Aled Lewis Evans, *Dim Angen Creu Teledu Yma [Swyddfa'r Eisteddfod (Barddas)]*.
Gwobrau: 1, £25.00; 2, £20.00; 3, £15.00

37. **ADRODD BL. 7, 8, 9 a 10**: O ddewisiad. *Gwobrau:* 1, £8.00; 2, £5.00; 3, £3.00

Rhoddir tlws er cof am Elin Mair Jones (rhodd Teulu Carndochan) i'w dal am flwyddyn i'r cystadleuydd mwyaf addawol yn yr adran Cerdd, Cerdd Dant neu Adrodd rhwng 16 a 30 oed

Gweler amodau y cystadlaethau cyfansoddi, arlunio a chrefft ar y dudalen gefn

BARDDONIAETH

38. **CADEIRIO** Cyfres o gerddi caeth neu rydd ar y testun: 'Sibrydion'
Gwobr: Cadair yr Eisteddfod (Rhoddedig gan deulu Yr Eagles, Llanuwchllyn).
Meistr y Ddefod: Carwyn Siddall. Cân y Cadeiro gan Gwynant Roberts ac Arfon Griffiths.

39. **TELYNEG**: 'Chwilio'. Gwobr: £20.00

40. **CERDD**: Ar unrhyw agwedd o'r Pasg. *Gwobr:* £20.00

41. **ENGLYN**: 'Antur'. *Gwobr:* £20.00

42. **SONED**: 'Cynefin'. *Gwobr:* £20.00

43. **YSGOL UWCHRADD**: 'Cefnogi'. *Gwobrau:* 1, £8.00; 2, £5.00; 3, £3.00

44. **BL. 5 a 6**: 'Seren'. *Gwobrau:* 1, £6.00; 2, £4.00; 3, £2.00

45. **BL. 3 a 4**: 'Ffrindiau'. *Gwobrau:* 1, £4.00; 2, £2.50; 3, £1.50

Rhoddir Cadair i'w dal am flwyddyn i'r cystadleuydd gorau o Ysgol Gynradd (rhif 44 a 45)

RHYDDIAITH

46. **PRIF DRAETHAWD**: 'Taith trwy un o gymoedd Llanuwchllyn' heb fod dros 6,000 o eiriau.
Gwobr: £50.00 *(rhodd Nerys a Nia, er cof am eu rhieni Mr a Mrs Ifan Roberts, Henryd)*

47. **AGORED**: Ymson. *Gwobr:* £ 40.00

48. **AGORED**: Stori fer 'Cawod'. *Gwobr:* £40.00

49. **DAN 21 OED**: Blog yn ymateb i ddigwyddiad ar y newyddion. *Gwobr:* £30.00

50. **BL. 7, 8, 9 a 10**: Darn o ryddiaith yn seiliedig ar unrhyw idiom.
Gwobrau: 1, £8.00; 2, £5.00; 3, £3.00

51. **BL. 5 a 6**: 'Llong Ofod'. *Gwobrau:* 1, £6.00; 2, £4.00; 3, £2.00

52. **BL. 3 a 4**: 'Tegan'. *Gwobrau:* 1, £4.00; 2, £2.50; 3, £1.50

53. **BL. 1 a 2**: 'Antur yng Ngwlad y Rwla'. *Gwobr:* £6.00 i'w rhannu

54. **BL. DERBYN**: Llun a Stori 'Dyma fi'. *Gwobr:* £5.00 i'w rhannu

Rhoddir tlws i'w dal am flwyddyn i'r cystadleuydd gorau yn yr Adran Ryddiaith (cyst. 47 - 49) er cof am Mr a Mrs Gwyndaf Davies (rhodd eu merch y diweddar Megan Davies)

Testun Prif Draethawd 2020:
'Cysylltiadau O. M. Edwards â Llanuwchllyn'
Heb fod dros 6,000 o eiriau

ARLUNIO

55. **AGORED (DROS BL. 10)**: Tirlun.
Gwobrau: 1, £12.00; 2, £8.00; 3, £5.00

56. **BL. 7, 8, 9 a 10**: Brithwaith.
Gwobrau: 1, £8.00; 2, £5.00; 3, £3.00

57. **BL. 5 a 6**: 'Bwrlwm'. *Gwobrau:* 1, £6.00; 2, £4.00; 3, £2.00

58. **BL. 3 a 4**: 'Bwrlwm'. *Gwobrau:* 1, £4.00; 2, £2.50; 3, £1.50

59. **BL. 1 a 2**: Cymeriad o Wlad y Rwla. *Gwobr:* £6.00 i'w rhannu

60. **BLWYDDYN DERBYN**: 'Deinosoriaid'. *Gwobr:* £5.00 i'w rhannu

61. **OED MEITHRIN**: **'**Fi fy hun'. *Gwobr:* £4.00 i'w rhannu

CREFFT

62. **BL. 7, 8, 9 a 10**: *Collage. Gwobrau:* 1, £8.00; 2, £5.00; 3, £3.00

63. **BL. 5 a 6**: Creu unrhyw beth allan o bren. *Gwobrau:* 1, £6.00; 2, £4.00; 3, £2.00

64. **BL. 3 a 4**: Creu anifail o gefn gwlad mewn unrhyw gyfrwng.
Gwobrau: 1, £4.00; 2, £2.50; 3, £1.50

65. **BL. 1 a 2**: Model sydd yn symud. *Gwobr:* £6.00 i'w rhannu

66. **BLWYDDYN DERBYN**: Creu Deinosor o offer ailgylchu. *Gwobr:* £5.00 i'w rhannu

67. **OED MEITHRIN**: Pyped allan o hosan. *Gwobr:* £4.00 i'w rhannu

RHODDION 2018

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen	£436.00
Cronfa'r Degwm Cyngor Gwynedd	£300.00
Ymddiriedolaeth Dr. D. Tecwyn Lloyd	£300.00
Cyngor Cymuned Llanuwchllyn	£100.00
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru	£100.00
Llenyddiaeth Cymru	£70.00
Nerys a Nia (er cof am Mr a Mrs Ifan Roberts).....	£60.00
Teulu Gwernhefin	£50.00
	£1,416.00

AMODAU

1. Y cwbl o'r cystadlaethau yn agored i'r byd.

2. Ni wobrwyir oni bydd teilyngdod, a bydd hawl gan y beirniaid i atal, rhannu neu gwtogi'r gwobrau fel y mynnont hwy.

3. Yr ymgeiswyr am y Gadair i anfon eu gwaith dan ffugenw i'r Ysgrifennydd, ynghyd â'u henwau a chyfeiriad dan sêl erbyn **10 Mai 2019** (yn ddiffael). Rhaid i'r gwaith fod yn waith gwreiddiol yr ymgeisydd. Fe dderbynnir cynnyrch mewn e bost pe dymunir llungwyn@btinternet.com.

4. Gellir anfon gweddill y cyfansoddiadau yn yr adrannau Rhyddiaith a Barddoniaeth dan ffugenw yn uniongyrchol at y beirniaid trwy'r post **NEU** mewn e-bost i'r Ysgrifennydd, erbyn **17 Mai 2019** (yn ddiffael).

5. Cynnyrch dan ffugenw yr adrannau Arlunio a Chrefft i fod yn Ysgol O. M. Edwards, Llanuwchllyn erbyn 4.30 o'r gloch ar **22 Mai 2019** (yn ddiffael).

6. Ffugenwau â manylion cyswllt perthnasol i'w hanfon i'r Ysgrifennydd erbyn **22 Mai 2019**.

7. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau fod deunydd yn cael ei yrru â'r taliad post cywir. Oni wneir hyn, ni warantir y bydd y gwaith yn cael ei ystyried yn y gystadleuaeth.

8. Os am dderbyn cynnyrch / beirniadaeth yn ôl rhaid **anfon amlen hunan-gyfeiriedig â stamp digonol**. Gwneir pob ymdrech i ddychwelyd y gwaith o fewn mis i ddyddiad yr Eisteddfod.

9. Lle nodir oedran, rhaid i'r ymgeisydd fod o dan yr oedran hwnnw ar ddydd yr Eisteddfod.

10. Ni chaniateir cyflwyno yr un darn mewn dwy gystadleuaeth.

11. **Ymgeiswyr yn y cystadlaethau llwyfan i ofalu bod copi o'r darnau hunan-ddewisiad ar gael i'r beirniad a'r cyfeilyddion.**

12. **Ar ddechrau'r cystadlaethau Cerdd a Cherdd Dant, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr gyflwyno copi o'r cyfeiliant neu'r alaw mewn hen nodiant a chyweirnod cywir i'r cyfeilydd (gweler rhifau cyswllt ar yr ail dudalen i gysylltu ymlaen llaw).**

13. Mae'r cwpanau a'r tariannau i'w cadw am **flwyddyn yn unig**. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw gwneud trefniant i'w dychwelyd yn ddiogel ac mewn da bryd.

14. Gwaith Cartref: Beirniadaethau cynradd i'w traddodi mewn Pabell Lên yn Ysgol O M Edwards bore Gwener **24 Mai**. Beirniadaethau uwchradd ac agored i'w traddodi yng nghyfarfodydd yr Eisteddfod.

15. Bydd hawl gan y Pwyllgor i ddefnyddio unrhyw gyfansoddiad arobryn mewn barddoniaeth neu ryddiaith i'w gyhoeddi fel y bydd gofod yn caniatau mewn llyfryn o lên Buddugol Eisteddfodau Sir Feirionnydd sef "Llên y Llannau". Mae hawlfraint "Llên y Llannau" yn eiddo'r pwyllgor. Ni chaniateir ailargraffu unrhyw ddarnau heb yn gyntaf ohebu â Ysgrifennydd Llên y Llannau.

16. Gellir cael unrhyw wybodaeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Dymuna'r Pwyllgor gydnabod y rhodd anrhydeddus o £439 a dderbyniwyd o'r gronfa uchod. Sefydlwyd y gronfa i gynorthwyo Eisteddfodau Cymru a gwerthfawrogwn yr haelioni hwn yn fawr.